**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Llun, 18 Rhagfyr 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Shelley Childs, Gethin Davies, Rhodri Davies, Rhodri Evans, Chris James, Maldwyn Lewis, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan a Carl Worrall.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Elizabeth Evans, Wyn Evans a Gareth Lloyd.

**Aelodau Cabinet yn bresennol:** Y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Keith Henson a Matthew Vaux.

**Swyddogion yn bresennol:** Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Amgylcheddol; Katy Spain, Rheolwr Gwasanaeth; Owen Morgan, Rheolwr Harbyrau; Chay Sanders, Arweinydd Gwaith yr Harbyrau; Ian Williams, Rheolwr Prosiect; Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd; Caroline Wride, Rheolwr Gwasanaeth; Eifion Jones, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 12.50pm)

1 **Ymddiheuriadau**

i. Ymddiheurodd y Cynghorwyr Marc Davies, Meirion Davies a John Roberts am nad oeddent yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.
ii. Ymddiheurodd y Cynghorydd Rhodri Davies am ymuno a'r cyfarfod yn hwyr.

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

3 **Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion: Ymgynghoriad**

Rhoddodd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod o'r Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon) ddiweddariad i Aelodau'r Pwyllgor ar ganlyniad proses ymgynghori Polisi Rheoli Harbyrau Ceredigion. Cymeradwywyd Polisi presennol Rheoli Harbyrau Ceredigion gan y Cyngor ar 19 Hydref 2010 ac roedd wedi darparu fframwaith clir, defnyddiol a phriodol ar gyfer cyflawni a rheoli'r gweithgarwch yn Harbyrau'r Cyngor yn Aberaeron, Aberystwyth a Chei Newydd. Fodd bynnag, erbyn hyn ystyriwyd

ei bod yn briodol ac yn amserol i adolygu a diweddaru’r Polisi i adlewyrchu’r newidiadau perthnasol ers i'r Polisi gael ei roi ar waith. Hefyd, i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau rhwng y Polisi a gweithgarwch presennol yr Harbyrau oedd wedi'u nodi neu oedd yn deillio o brofiad. Roedd y newidiadau a gynigwyd yn adeiladu ar y Polisi presennol oedd wedi gwasanaethu’r rhanddeiliaid yn dda ers dros ddegawd. Roedd y newidiadau yn cydnabod ac yn adlewyrchu bod yr Harbyrau yn gyfleusterau aml-ddefnydd oedd yn cael eu rhannu, a bwriad cyffredinol y Cyngor oedd i gryfhau'r Polisi fel y gellid parhau i reoli'r rhain mewn ffordd deg, dryloyw a chytbwys er budd yr holl randdeiliaid.

Roedd Polisi drafft diweddaredig wedi’i baratoi ac fel rhan o'r broses o newid polisi, cynhaliwyd ymgynghoriad gan roi cyfle i randdeiliaid roi eu barn. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 20 Medi 2023 ac roedd ar agor hyd 20 Hydref 2023. Yn gyfan gwbl, cafwyd 108 o ymatebion drwy’r broses ymgynghori benodedig. Cafwyd a nodwyd adborth drwy ffyrdd eraill hefyd. Cafwyd trosolwg o'r adborth a dderbyniwyd. Yn dilyn yr adborth a gafwyd drwy’r broses ymgynghori, gwnaed newidiadau i ddrafft diweddaraf y Polisi newydd. Fel gydag unrhyw ymgynghoriad oedd yn ymwneud â newid polisi, nid oedd yn bosib ymateb yn gadarnhaol i'r holl adborth ac awgrymiadau a sylwadau a ddaeth i law. Yn wir, gall amcanion, dyheadau a disgwyliadau'r gwahanol randdeiliaid wrthdaro â’i gilydd

Eglurodd y Cynghorydd Keith Henson a Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol- Gwasanaethau Amgylcheddol mai’r bwriad oedd cael fframwaith polisi eang oedd yn cefnogi ac yn hwyluso’r gwaith o reoli’r harbyrau yn deg, yn gyson ac yn dryloyw gan gydnabod amrywiaeth y rhanddeiliaid oedd yn defnyddio'r cyfleusterau. Derbyniwyd na fyddai pawb yn cymeradwyo nac yn cytuno â'r manylion a'r goblygiadau. Fodd bynnag, cyfleusterau a weithredwyd gan y Cyngor oedd y rhain, ac yn y pen draw mater i'r Cyngor oedd penderfynu sut orau i’w rheoli nhw a'r gweithgarwch oedd yn digwydd ynddynt.

Ychwanegodd Gerwyn Jones fod camddealltwriaeth wedi bod ynghylch amserau aros a bod hyn wedi’i adlewyrchu yn yr adborth. Hefyd os oedd cwch ar werth gydag angorfa, y gallai hyn greu premiwm artiffisial. O’r 108 o ymatebion, rhoddodd 33 eu barn ar y polisi er iddynt ddweud nad oeddent yn ymwybodol o’i fodolaeth, felly roedd yn bwysig cael dull cytbwys o ymdrin â’r mater.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:
- Roedd yr Aelodau'n gefnogol i dynnu ymaith yr hawliau trosglwyddo ac etifeddu o’r trefniadau angori ar gyfer deiliaid hamdden yn y polisi diwygiedig.
- Nid oedd y polisi yn cwmpasu'r ffïoedd a'r taliadau a byddai'r rhain yn cael sylw ar wahân yn ystod y broses flynyddol o osod y gyllideb.
- Nodwyd bod yr awdurdod lleol yn berchen ar seilwaith yr harbwr a bod Ystâd y Goron yn berchen ar yr arfordir ac yn gyfrifol amdano.

- Roedd y Gwasanaeth Harbyrau yn ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rheolaidd, yn fwy nag y mae gwasanaethau eraill yn medru ei gynnig a'i gynnal. Roedd yr ymgysylltu yn cynnwys cymorthfeydd misol, cylchlythyr 'Dyfroedd Tawel' a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn a Phwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau a oedd yn cwrdd ym misoedd Mawrth a Hydref yn draddodiadol. Wrth i bwyslais y Pwyllgor esblygu, bydd angen adolygu'r Cyfansoddiad.
- Yn hanesyddol cyflawnwyd gwaith carthu yn harbyrau Aberaeron a Cheinewydd bob blwyddyn, a phob tair i bum mlynedd yn Aberystwyth, lle mae'r dasg lawer yn fwy. Roedd angen ystyried y sefyllfa ariannol.
- O ran 'Egwyddorion Gunning', nodwyd bod esboniad eglur wedi'i roi dros gyflwyno newidiadau yn y polisi.
- Mynegwyd pryderon ynghylch cael gwared o'r polisi y broses o drosglwyddo angorfeydd masnachol, gan fod hyn yn allweddol i ddiogelu busnesau yng nghyd-destun treftadaeth forwrol y sir. At ddibenion dilyniant, roedd hi'n hanfodol cael rhywfaint o hyblygrwydd o ran trosglwyddo angorfeydd masnachol. Nodwyd bod trosglwyddo angorfeydd wedi'i dynnu o'r polisi yn sgil adborth dros y blynyddoedd fod y rhestr aros yn dipyn o 'siop gaeëdig'.
- Roedd nifer benodol o angorfeydd ym mhob un o'r 3 harbwr ac roedd y galw yn amrywio, ond yn gyffredinol roedd llai ar gael yng Ngheinewydd o ran hamdden a masnach. Ar hyn o bryd, roedd terfyn ar y nifer ar y rhestr aros ar gyfer angorfeydd hamdden a masnachol, ond byddai'r terfyn yn cael ei ddileu yn y polisi diwygiedig.
- Yn dilyn ymholiad ynghylch y ffi weinyddol sy'n gysylltiedig â ffioedd parcio, nodwyd y byddai angen edrych ar hyn gan fod trwyddedau parcio wedi'u tynnu o'r angorfeydd.
- Yn ystod y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gyda chynllun amddiffyn arfordir Aberaeron, nid oedd darpariaeth parcio am ddim wedi'i threfnu ar gyfer defnyddwyr yr harbwr.
- Mynegwyd pryderon y byddai deiliaid angorfeydd yn ceisio trwco o angorfa hamdden i angorfa fasnachol - at ddibenion etifeddu - fodd bynnag, nodwyd bod camau ar waith i atal hyn.

Esboniodd y Cadeirydd fod llythyr wedi'i anfon gan Gymdeithas Angorfeydd Masnachol Ceredigion, ac roedd Aelodau a Swyddogion wedi ei weld eisoes. Nododd yr Aelodau'r llythyr gan gydnabod y pryderon a fynegwyd ynddo parthed cael gwared ar drosglwyddo angorfeydd masnachol ac effaith hyn ar fusnesau a dilyniant busnes.

Yn unol â phrotocol Trosolwg a Chraffu ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, roedd Mr Seal yn bresennol yn y cyfarfod i annerch y Pwyllgor ar ran Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau sef grŵp ar wahân i Gyfarfodydd Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau a drefnir gan yr awdurdod lleol. Cyfeiriwyd at y pryderon a fynegwyd yn y cofnodion a'r llythyr agored a anfonwyd gan Bwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbyrau i'r awdurdod lleol yn dilyn eu cyfarfod i drafod y Polisi Rheoli Harbyrau.

Esboniodd Gerwyn Jones fod y Gwasanaeth Harbyrau yn rhan o Wasanaeth ehangach Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a'i fod yn gweithredu o dan Gyfansoddiad y Cyngor fel y gwna gwasanaethau eraill y Cyngor.

Diolchodd y Cynghorydd Keith Henson i'r Pwyllgor am eu mewnbwn, i Gymdeithas Angorfeydd Masnachol Ceredigion am eu llythyr, ac i Mr Seal am annerch y Pwyllgor. Estynnodd ei ddymuniadau gorau i Gerwyn Jones wrth iddo adael ei rôl gyda'r awdurdod a diolchwyd iddo am ei waith caled dros y blynyddoedd. Adleisiodd y Cadeirydd eiriau'r Cynghorydd Henson.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i

i. nodi cynnwys yr adroddiad.
ii. argymell i'r Cabinet bod y fersiwn ddiweddaraf o Bolisi drafft Rheoli Harbyrau Ceredigion, sy'n ymgorffori'r newidiadau a wnaed yn dilyn y broses ymgynghori, yn cael ei chymeradwyo er mwyn ei gweithredu wedi hynny, a bod pob cwch masnachol, gan gynnwys cychod pysgota a chychod cludo teithwyr, yn cael gwerthu eu cychod gyda'u hangorfeydd os oes angen, a bod yr hawliau olynu yn cael eu cynnal.

Gofynnodd y Cynghorydd Rhodri Evans am i'r polisi a gyflwynwyd i'r Cabinet gynnwys y newidiadau wedi'u marcio, er hwylustod.

**4 Torri Porfa**

Eglurodd y Cynghorydd Keith Henson fod y papur yn nodi sut caiff y gwasanaeth Torri Porfa ei reoli, y rhesymeg y tu ôl hyn a'r costau cysylltiedig. Yn 2014 – 15 gostyngwyd prif doriad ymyl y ffordd i un toriad. Gwnaed hyn yn sgil toriadau a wnaed i'r gwasanaeth yn dilyn adolygiad o Wasanaethau'r Cyngor y flwyddyn honno. Drwy gydnabod hyn. penderfynwyd torri mewn ardaloedd penodol yn hytrach nag yn ôl hierarchaeth ffyrdd, er bod rhywfaint o drawsgroesi.

Yn y drefn gyfredol, roedd angen gwneud toriadau ar sail 'diogelwch / gwelededd' yn gyntaf (cyffyrdd a llinellau gwelededd) ac yna'r ardaloedd oedd yn tyfu'n gynnar. Yn sgil yr hinsawdd, roedd tyfiant yn gynt yn y de felly roedd y gwasanaeth yn gweithio o'r de i'r gogledd. Roedd 70% o'r rhwydwaith yn Ffyrdd Dosbarth C a Ffyrdd Di-ddosbarth ac roedd llwyddo i fynd i'r holl lonydd cul yn her. Wrth gwrs, roedd adnoddau'n brin ac ni allant dorri bob ymyl y ffordd ar yr un pryd, felly roedd rhai yn cael eu torri'n gynt nag eraill. Naill ffordd, roedd posibilrwydd y byddai amseriad y toriadau yn denu cwynion.

Roedd y contractwr wedi bod yn torri profa ers nifer o flynyddoedd ac roedd y gwasanaeth yn ceisio peidio â gwyro'r contractwr o'r rhaglen am fod costau ychwanegol yn gysylltiedig â hyn. Fodd bynnag, gellid newid y rhaglen os oedd angen am resymau diogelwch y ffyrdd. Roedd Swyddog yn archwilio pob cais i dorri porfa a dderbyniwyd gan asesu a oedd y rheswm yn ddigonol i wyro adnoddau. Roedd yn cymryd oddeutu 6 wythnos i gwblhau'r prif doriad. Roedd y gwasanaeth yn cynnal cyfarfod briffio gyda'r contractwr cyn y tymor torri ac ar ôl hynny.

Rhannwyd y Sir i 10 ardal. Roedd 9 ardal yn cynnwys ffyrdd y sir ac un ardal ar wahân ar gyfer y cefnffyrdd sef ardal rhif 10 caiff ei rheoli ar ran NMWTRA. Roedd yr Awdurdod bob amser yn gorfod adolygu safonau yn y cytundebau lefel gwasanaeth er mwyn adlewyrchu'r gostyngiad yn y gyllideb i'r gweithgareddau cynnal a chadw priffyrdd amrywiol. Roedd blaenoriaethau yn y dyfodol yn debygol o arwain at ffocysu mwy ar risg a diogelwch y ffordd a llai ar ymddangosiad esthetaidd yr ardaloedd porfa a gaiff eu cynnal a'u cadw.

Cyfeiriwyd at y canlynol a nodwyd yn yr adroddiad:

- Toriadau ar y Brif Ffyrdd
- Torri porfa - mannau amwynder
- Mannau Trefol â Blodau Gwyllt
- Mannau Cadwraeth ger y Ffordd
- Costau'r Gwasanaeth

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan y Swyddogion. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Roedd toriadau amwynder yn cael eu gwneud yn fewnol gan y tîm Cynnal a Chadw Tiroedd a hynny bedair gwaith y flwyddyn. Diogelwch ar y ffyrdd oedd y prif reswm dros dorri porfa.
- Fe wnaeth Aelodau godi pryderon nad oedd rhai ardaloedd yn eu wardiau yn cael eu torri'n gyson. Nodwyd y gallai cyrff gwahanol fod yn gyfrifol am yr ardal o borfa, megis cymdeithasau tai a pherchnogion tir. Cytunodd y swyddogion i rannu manylion yr ardaloedd glaswelltog yr oedd gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb amdanynt yn y sir, a hynny er mwyn galluogi'r Aelodau i ddeall y sefyllfa yn well.
- Yn hanesyddol rhannwyd y sir yn ddwy gylchdaith, ond mewn ymdrechion i ddenu mwy o gontractwyr cafodd ei rhannu'n 10 cylchdaith yn y blynyddoedd diwethaf a threfnwyd sesiwn 'cwrdd â'r prynwr' fel rhan o'r gwaith caffael torri porfa. Er bod sawl contractwr wedi dangos diddordeb i ddechrau, dim ond dau gontractwr oedd wedi tendro am y gwaith. Nodwyd mai un o'r ffactorau allweddol yn yr ymarfer caffael oedd cydymffurfio â diogelwch ar y ffyrdd.
- Cafodd pryderon eu codi ynghylch torri porfa yn y fynwent yn Aberystwyth ac effaith hyn ar y cyhoedd. Codwyd cwestiynau hefyd yn ymwneud â llwybr beicio Ystwyth a Rheidol. Nodwyd bod hyn wedi dod i sylw'r gwasanaeth ac y byddai'n cael ei adolygu.
- Gofynnodd yr Aelodau am iddynt gael gwybod am unrhyw newidiadau i'r rhaglen torri porfa pan nad oedd angen penderfyniad gwleidyddol, er mwyn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth i ateb cwestiynau'r cyhoedd.
- Diolchwyd i'r Gwasanaeth am eu gwaith a'u hyblygrwydd pan anfonodd Aelod gais i dorri'r porfa pan oedd angladd yn y ward.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**5 Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol**

Roedd Eifion Jones, Swyddog Llwybrau Cyhoeddus ac Ysgrifennydd y Fforwm Mynediad Lleol, wedi rhoi trosolwg o Adroddiad Blynyddol y Fforwm

Mynediad Lleol ac o waith a rôl y Fforwm. Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i gynghori'r Cyngor Sir, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch y ffordd y gellid gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad. Roedd Fforymau Mynediad Lleol yn cynrychioli amrywiaeth eang o fuddiannau ac roedd yr aelodau yn chwarae rôl bwysig o ran gwella a rheoli mynediad i gefn gwlad amrywiol ac atyniadol y sir

Penodwyd aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol am dair blynedd; penodwyd y Fforwm presennol gan Gyngor Sir Ceredigion, sef yr Awdurdod Penodi, yn 2022 a bydd yr aelodau'n eistedd ar y fforwm tan 2025. Nid yn unig yr oedd y Fforwm yn gorff statudol a anogir i osod ei agenda ei hun, yr oedd yn allweddol ar gyfer denu grantiau a oedd yn werth dros £100,000 y flwyddyn. Hefyd roedd yn bartner wrth reoli Hawliau Tramwy a Mynediad. Lluniwyd yr adroddiad blynyddol yn unol â Rheoliad 16 Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.

Estynnodd y Cynghorydd Clive Davies (Aelod o'r Cabinet dros yr Economi ac Adfywio) ei ddiolch i Eifion Jones am lunio'r adroddiad. Fel aelod o'r Fforwm, dywedodd fod y gwaith - a'r cyflwyniadau a wneir gan gyrff allanol - yn ddiddorol iawn.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i nodi'r wybodaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth o waith y Fforwm Mynediad Lleol a'r Adroddiad Blynyddol a baratowyd.

**6 Adborth yn dilyn yr ymweliad â Chanolfan Bwyd Cymru**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adborth yn dilyn ymweliad y Pwyllgor â Chanolfan Fwyd Cymru yn Horeb, Llandysul. Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i Angela Sawyer, Uwch-Dechnolegydd Bwyd, am gyflwyniad llawn gwybodaeth a thaith o amgylch y safle.

Nododd Aelodau'r Pwyllgor yr adroddiad.

**7 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

**8 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu**

Cytunwyd i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Gwybodaeth am y grantiau sydd ar gael ar gyfer mudiadau a busnesau.

Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i bawb a dymunodd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2024**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**